**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd am 9.30 ddydd Iau 26 Tachwedd 2020 drwy Microsoft Teams

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Margaret Evans
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Dr Gareth Hughes
Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Victoria Provis
Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Georgia Thomas

Yn gweinyddu:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin Cyfarwyddwr Cynllunio Ariannol Strategol a Dadansoddi Busnes
Gavin Bessant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Ray Selby, Cofrestrydd
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.34<br>Diweddariad Covid 19 | Rhoddodd yr Is-Ganghellor drosolwg ar y sefyllfa sydd ohoni h.y. o ran pandemig Covid-19. Dywedodd fod y Brifysgol wrthi'n cwblhau prosesau ar gyfer profi myfyrwyr cyn iddynt ddychwelyd adref ar gyfer y Nadolig. Canmolodd y staff am eu gwaith rhagorol yn ystod y flwyddyn. | |
| 20.35<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Tammy Bowie, Sian Eirian, James Mills a Deris Williams. | |
| 20.36<br>Datganiadau buddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau Ddatganiadau Buddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (JCO062). | |
| 20.37<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2020 | CADARNHAODD y Cynghorau fod cofnodion anghyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2020 yn gofnod cywir (JCO063).<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. | |
| 20.38<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at Gynhadledd Llywodraethu ddiweddar Advance HE a gofynnodd i'r Clerc a Pam Berry, Is-gadeirydd, adrodd ar y cynnwys. Cyfeiriodd y Clerc at drafodaethau ar amrywiaeth Byrddau a nododd y byddai'n dod â gwybodaeth fanylach i'r PELI yn y flwyddyn newydd. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y trafodaethau ynghylch cynrychiolaeth o'r gymuned leol a chymuned y myfyrwyr ar gyrff llywodraethu a'u rhan wrth ddylanwadu ar ddiwylliant y prifysgolion.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru sydd ar y gweill. Nododd hefyd fod yr Is-Gangellorion a'r Cadeiryddion yn cyflwyno ymateb ar y cyd i ymgynghoriad y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod Emma Hughes, Andrew Gibson a Gareth Hughes yn mynychu eu cyfarfod diwethaf yn aelodau staff Cyngor Y Drindod Dewi Sant. Diolchodd iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr i waith y Cyngor. Roedd etholiad wrthi'n digwydd i ddewis aelodau yn eu lle. | |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| 20.39<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyd-Gynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO064). Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y canlynol:<br><br><u>Cymorth CCAUC a LIC</u><br>Roedd y Brifysgol wedi cyflwyno nifer o geisiadau cwricwlwm strategol i CCAUC yng nghyd-destun £27m o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni pandemig Covid-19 (y Gronfa HEIR). Roedd tri chais wedi'u gwneud: un yn gais unigol a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu. Os bydd yn llwyddiannus, byddai'r ceisiadau'n darparu £3.5miliwn ychwanegol i'r Brifysgol.<br><br><u>Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (TER)</u><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at yr un ymateb a wneir gan yr Is-Gangellorion a'r Cadeiryddion a oedd yn canolbwyntio ar faterion annibyniaeth ac ymreolaeth.<br><br><u>Cynghrair â Phrifysgol De Cymru</u><br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar gyfarfodydd â'r Is-Ganghellor ac uwch swyddogion PDC. Roedd cytundeb cyfreithiol ar y gweill ac roedd trafodaethau ar weithgareddau ar y cyd wedi dechrau.<br><br><u>Adnewyddu'r Cloestrau yn Llambed</u><br>Adroddodd yr Is-Ganghellor fod gwaith adnewyddu'r Cloestrau yn Llambed wedi'i gwblhau a'r gobaith oedd trefnu agoriad ffurfiol yn ystod y flwyddyn nesaf.<br><br><u>Partner Cydfenter SA1</u><br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad ar yr ymgysylltu a'r trafodaethau mewn perthynas â'r Gydfenter, gan gynnwys rheoli risg a deialog â LIC. | |
| 20.40<br>Cofrestr Risg | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (JC0065).<br><br>Adroddodd y Clerc fod y Gofrestr wedi'i ddiweddaru mewn ymgynghoriad â pherchnogion y risg a'r Uwch Gyfarwyddiaeth a'i bod wedi ei hystyried gan y PAS yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2020 Cyflwynodd ddarlun cadarnhaol o ran y rheolaethau a roddwyd ar waith i reoli risgiau, a dangosodd nifer o feysydd fod y duedd ar i lawr. Roedd risgiau blaenorol a ymddangosai ar Gofrestr Risg y Grŵp hefyd wedi'u diweddaru. | |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| | Tynnodd y Clerc sylw at y risg sy'n gysylltiedig â recriwtio a oedd wedi dangos goddefiant torri risg yn flaenorol. O ganlyniad i recriwtio cryf, roedd y risg wedi lleihau ac nid oedd yn torri'r rheolau mwyach. Cyfeiriodd hefyd at y risg sy'n gysylltiedig â phartneriaethau cydweithredol a oedd yn dangos tuedd ar i fyny o ganlyniad i effaith Covid-19 ar rai partneriaid rhyngwladol. Cyfeiriodd yr Aelodau at gynllunio olyniaeth yng ngoleuni newidiadau arfaethedig ar lefel y Cyngor a chytunwyd y dylid categoreiddio hyn yn risg.<br><br>CYTUNWYD y dylai'r Clerc, yn berchennog risg, ddiwygio'r risg sy'n gysylltiedig â llywodraethu yn unol â hynny. | Clerc i ddiwygio risg sy'n ymwneud â llywodraethu |
| 20.41<br>Adroddiad PREVENT | YSTYRIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol PREVENT a'r gofrestr risg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig (JCO066).<br><br>Atgoffodd y Clerc y Cynghorau o'u cyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Atal, gan gynnwys y ffurflenni statudol i CCAUC. Tynnodd sylw at newidiadau i'r gofrestr risg a ddangosodd sut yr oedd risgiau Prevent a oedd yn gysylltiedig yn cael eu rheoli. Cyfeiriwyd at effaith Covid-19 ar drefniadau ac yn arbennig y bygythiad cynyddol o dorri rheolau seiberddiogelwch. Cyfeiriodd at yr hyfforddiant parhaus a ddarperir i'r staff a nododd y byddai'r hyfforddiant gloywi arfaethedig a drefnwyd ar gyfer aelodau'r Cyngor ym mis Mawrth 2020 yn cael ei ad-drefnu ar gyfer y cyfarfod ym mis Mawrth 2021. O ran y cynllun gweithredu, nododd y Clerc fod yr holl gamau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu ar darged i'w cwblhau.<br><br>Holodd yr Aelodau a oedd y gofrestr risg wedi'i chyflwyno yn unol â'r Polisi Rheoli Risg newydd a CHYTUNWYD y byddai'r Clerc yn gwirio'r mater hwn cyn cwblhau'r gofrestr.<br><br>Yn ddarostyngedig i'r uchod, CYMERADWYODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol Prevent a'r gofrestr risg. | Y Clerc i wirio fformat y gofrestr risg cyn cwblhau |
| 20.42<br>Enwebiadau a materion Llywodraethu | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu ar 14 Hydref 2020 (JC0067).<br><br><u>Cod Llywodraethu Addysg Uwch CUC (Medi 2020)</u><br>Nododd y Cynghorau fod y PELI wedi ystyried Cod Llywodraethu Addysg Uwch newydd CUC (Medi 2020) ynghyd â sylwebaeth a baratowyd gan y Clerc. Roedd wedi cadarnhau bod y | |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyngor eisoes wedi mabwysiadu'n llawn y rhan fwyaf o'r Elfennau Sylfaenol yn y Cod, ac y byddai gweddill yr Elfennau'n cael eu mabwysiadu'n llawn pan fyddai'r gwaith presennol mewn ymateb i ymrwymiadau Siarter Camm wedi'i gwblhau. Mewn perthynas ag Elfen 5 (5.8), roedd y PELI wedi trafod manteision posibl penodi Uwch Lywodraethwr annibynnol i gynorthwyo gyda’r gwaith o lywodraethu’n dda. Er eu bod yn nodi y tybiwyd bod y rôl hon yn ychwanegu gwerth at y sector corfforaethol, nid oedd aelodau wedi gweld yr angen i lywodraethwr ychwanegol weithredu’n gyfryngwr i aelodau'r Cyngor ac roeddent wedi nodi, yn rhan o ymrwymiadau Camm, y byddai'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn ymarfer adborth 360 yn ystod y flwyddyn gyfredol, gan ddarparu dull cyfannol o werthuso. Felly, roedd y PELI yn argymell na fabwysiadwyd yr is-adran hon o'r Cod ar hyn o bryd.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad y PELI na ddylid penodi Uwch Lywodraethwr Annibynnol ar hyn o bryd.<br><br><u>Cynllun Gweithredu Adroddiad Camm</u><br>Roedd y PELI wedi ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu cynllun gweithredu Camm a sawl mater cysylltiedig. Yr oedd yn argymell y dylai'r Cynghorau fabwysiadu cyfres o ddogfennau a baratowyd gan Grŵp Ysgrifenyddion Cymru ac a gymeradwywyd wedyn gan Gadeiryddion Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru, fel a ganlyn:<br><br>• Disgrifiad Rôl yr Ysgrifennydd/Clerc (Cam Gweithredu 5)<br>• Canllawiau ar agosrwydd i lywodraethwyr (Cam Gweithredu 5)<br>• Templed adrodd llywodraethu blynyddol (Cam Gweithredu 3)<br><br>CYTUNODD y Cynghorau i fabwysiadu'r dogfennau uchod.<br><br><u>Strategaeth ac amserlen recriwtio</u><br>Roedd y PELI wedi ystyried a chytuno ar y strategaeth a'r amserlen ar gyfer recriwtio llywodraethwyr annibynnol newydd, ynghyd â chynigion mewn perthynas â chyfnodau o swydd a blaenoriaethau ar gyfer sgiliau a phrofiad. Roedd cyfarfod ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2021 i gwblhau'r dull o fynd ati.<br><br><u>Hunanarfarnu'r Pwyllgor</u> | |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu/penderfyniad |
|---|---|---|
| | Wrth ystyried ei adroddiad blynyddol, roedd y PELI wedi cwestiynu a oedd y dull o hunanarfarnu o fewn cyfarfodydd yn effeithiol a chytunodd i gyfeirio'r mater hwn at y Cynghorau i'w ystyried.<br><br>CYTUNODD y Cynghorau y dylai'r Clerc baratoi cwestiynau allweddol i lywio hunanwerthusiadau yn y dyfodol o fewn cyfarfodydd ac y dylid adolygu'r mater hwn yn barhaus | Y Clerc i baratoi cwestiynau allweddol i lywio ymarferion hunanarfarnu yn y dyfodol |
| 20.43<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Academaidd (JC0068a). | |
| 20.44<br>Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO068b). | |
| 20.45<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (JCO068c). | |
| 20.46<br>Adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau’r adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd (JCO069). | |
| 20.47<br>Datgan buddiannau | Ni nodwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol a oedd yn gwrthdaro yn ystod y cyfarfod. | |
| 20.48<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Ionawr 2021. | |